| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 17 Medi 2026 |
| **TEITL** | Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2027 Adroddiad Drafft |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan<br>Y Cynghorydd Menna Trenholme |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r draft adroddiad i'w graffu |

**1 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno draft Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru i sylw aelodau y Pwyllgor Craffu Gofal yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Awst a Hydref 2026. (Atodiad ynghlwm).

1.2 Mae'r adroddiad drafft hefyd wedi ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Awst a Hydref 2026. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei addasu a'i rannu gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y chwech awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd i'w gymeradwyo. Bydd angen cyhoeddi yr adroddiad yn Ebrill 2027 ar safle y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

1.3 Mae'r asesiad anghenion yn cael ei greu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**2. Y penderfyniad a geisir**

2.1 Gofynnir i'r pwyllgor gynnig ei sylwadau ar yr asesiad anghenion drafft fel rhan o'r ymgynghoriad.

**3 Manylion Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2027**

3.1 Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gwblhau Asesiad Anghenion Poblogaeth o anghenion gofal a chefnogaeth o dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n rhaid i'r adroddiad asesu anghenion gofal a chefnogaeth grwpiau blaenoriaeth yn y boblogaeth sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau corfforol a dysgu, iechyd meddwl, niwrowahaniaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

3.2 Tra bod yr asesiad anghenion poblogaeth yn ofyn statudol er mwyn hysbysu y Cynllun Ardal, nid dyma'r prif reswm dros ymgymryd â'r gwaith. Mae'r asesiad anghenion poblogaeth yn ddogfen hanfodol sydd yn darparu sail tystiolaeth i gefnogi sefydliadau a gwasanaethau ar draws yr ardal yn ogystal â chylchoedd cynllunio strategol. Mae hyn yn sylfaen i integreiddio gwasanaethau a chefnogi trefniadau partneriaeth.

3.3 Mae'r asesiad anghenion poblogaeth wedi ei seilio ar ystod eang o wahanol fathau o dystiolaeth gan gynnwys data, tystiolaeth ymchwil a doethineb a phrofiad pobl sy'n darparu ac yn defnyddio gofal cymdeithasol. Er mwyn gwirio y canfyddiadau, mae'r adroddiad yn derbyn ymgynghoriad eang.

3.4 Mae asesiadau anghenion eraill cysylltiedig a chynlluniau sydd wedi eu hysgrifennu, neu dan ddatblygiad gan gynnwys Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hwn yn edrych ar faterion llesiant mwy eang gan gynnwys iechyd, newid hinsawdd, diwylliant a'r economi. Mae hefyd asesiadau penodol ar gyfer gofal iechyd, gofal lliniarol a diwedd oes, iechyd cyhoeddus, trais, camdrin sylweddau, hunanladdiad a hunan niwed, digartrefedd a mwy. Yr ydym yn gwneud y cysylltiadau gyda'r rhain o'r asesiad. Mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio yn bendodol ar anghenion gofal a chefnogaeth, sydd yn ein helpu i osgoi dyblygu ac yn golygu y gallwn dynnu sylw at negeseuon allweddol ar gyfer asesiadau eraill am anghenion gofal a chefnogaeth.

3.5 Mae'r asesiad anghenion poblogaeth yn darparu'r sylfaen ar gyfer gwaith ychwanegol, fel Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a fydd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn gweithio gyda darparwyr i gomisiynu'r gofal a chefnogaeth sydd ei angen er mwyn cyfarfod â'r anghenion sydd wedi eu nodi yn yr asesiad, a gosod blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer gweithio ar y cyd.

3.6 Dyma'r trydydd asesiad anghenion poblogaeth y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ei gynhyrchu felly mae'r broses wedi aeddfedu. Tra ei bod dal yn bwysig i wirio ein tybiaethau, ychydig o'r canfyddiadau sydd nawr yn newydd neu yn syndod. Mae asesiad 2027 yn adeiladu ar waith rhanbarthol sydd wedi digwydd yn y pum mlynedd blaenorol, er enghraifft, roedd y strategaeth dementia ranbarthol a'r strategaeth anabledd ill dau yn cael eu hysbysu gan yr asesiad anghenion blaenorol a nawr yn rhan o'r sylfaen tystiolaeth sy'n hysbysu hwn.

3.7 Mae'r canllaw diweddaraf gan Lywodraeth Cymru am yr asesiadau wedi gofyn am asesiad byrrach a mwy syml sy'n canolbwyntio ar nifer llai o flaenoriaethau lle mae angen gweithredu ar y cyd. Mae'r holl wybodaeth fanwl ar gael mewn papurau cefndir i gefnogi cynllunio gwasanaethau ar wefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu siartiau a thablau manwl, ffynonellau data, ac maent yn esbonio unrhyw faterion ansawdd neu argaeledd data. Mae'r data ar gael ar gyfer ystod o ardaloedd daearyddol gan gynnwys ardaloedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r bwrdd iechyd (Gorllewin, Canol a'r Dwyrain), awdurdod lleol, Clystyrau Gofal Iechyd Sylfaenol ac ardaloedd daearyddol llai lle mae'r rheini ar gael. Mae systemau nawr yn eu lle i ddiweddaru'r asesiad wrth i ddata newydd ddod ar gael. Mae hyn yn darparu mynediad i'r ffigyrau diweddaraf i hysbysu unrhyw waith i'r dyfodol yn ogystal â chynllunio lleol.

## 4. Asesiad effaith

4.1 Ar gyfer pob un o'r grwpiau poblogaeth mae'r proffil cydraddoldeb, gwybodaeth ar nodweddion gwarchodedig, y dyletswydd cymdeithasol-economaidd wedi eu hystyried er mwyn hysbysu'r asesiad. Yn ychwanegol, gwnaed ymchwil i lenyddiaeth ar gydraddoldeb a hawliau dynol a'u hystyried i hysbysu'r asesiad. Mae'r wybodaeth hyn yn treiddio drwy'r adroddiad a'i ddata cefndir cefnogol ac ymchwil yn hytrach na chael ei gyhoeddi fel Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 5 Oblygiadau adnoddau

5.1 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyllido rheolwr prosiect i gefnogi datblygiad yr asesiad anghenion poblogaeth. Cafodd costau cysylltiedig, fel cyfieithu eu cyllido hefyd gan y bartneriaeth.

5.2 Mae cost wedi bod i'r awdurdodau lleol ac i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn amser staff ac adnodd i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i wneud gwaith ymgysylltu gyda'r cyhoedd, staff ac aelodau etholedig, a staff i gefnogi dadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiad.

5.3 Gall fod angen rhyw lefel o fuddsoddiad naill ai ar lefel rhanbarthol neu leol ar y blaenoriaethau rhanbarthol a lleol a adnabyddir yn yr asesiad anghenion poblogaeth. Bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach fel rhan o ddatblygiad cynlluniau lleol a rhanbarthol.

## 6 Llywodraethu a risg

6.1 Mae risg na fydd yn bosib i'r asesiad anghenion ennill cymeradwyaeth y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, y chwech awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd mewn pryd i'w gyhoeddi erbyn y terfyn amser statudol o Ebrill 2027. Er mwyn lliniaru y risg yma, mae'r tîm prosiect wedi cwblhau yr adroddiad drafft mewn da bryd ar gyfer proses ymgynghori a chymeradwyaeth. Mae aelodau y grwp llywio yn trafod gyda gweinyddwyr pwyllgorau er mwyn gwneud yn siwr fod yr adroddiad yn cael ei amserlennu ar gyfer y cyfarfodydd perthnasol. Mae'r dyddiadau hyn wedi cael eu rhannu gyda'r tîm prosiect fel eu bod yn gallu gwneud yn siwr fod yr adroddiad terfynol wedi ei gwblhau mewn pryd.

## 7. Ymgynghoriad ac ymgysylltiad

7.1 Sefydlodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cyrmu grŵp llywio rhanbarthol i gwblhau y gwaith gan gynnwys aelodau o bob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r aelodau yn gyfrifol am ddarparu data lleol a chanfyddiadau ymgysylltu ar gyfer yr adroddiad. Mae'r grŵp llywio wedi casglu adborth cychwynnol oddi wrth eu sefydliadau ac wedi gwneud sylwadau ar yr adroddiad drafft, ond bydd adborth pellach yn cael ei gasglu yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r swyddogion arweiniol ar gyfer yr asesiad anghenion poblogaeth yn mynychu Partneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru a Grŵp Data Asesiadau Llesiant Gogledd Cymru er mwyn cydlynu casglu data a dadansoddi gydag Asesiad Llesiant y Bwrdd Iechyd Cyhoeddus.

7.2 Mae trefniadau ymgysylltu yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yn cynnwys holiadur sy'n agored i bobl sy'n darparu ac yn defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, am eu profiadau o ofal a chefnogaeth yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn darparu cyfoeth o ddata ansawdd i hysbysu yr asesiad anghenion poblogaeth. Yn ychwanegol at yr holiadur rydym hefyd wedi cydlynu a defnyddio tystiolaeth o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu sydd wedi eu gwneud drwy'r rhanbarth gan bartneriaid. Mae'r canfyddiadau hyn ar gael ar fasdata ymgysylltu y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sydd yn brosiect parhaus i wella cydlynu gweithgareddau ymgysylltu ar draws y rhanbarth a galluogi gwell defnydd o'r canfyddiadau. Bydd adroddiad ymgynghorol llawn hefyd yn cael ei gyhoeddi gyda'r prif adroddiad.

## 8. Sut mae'r asesiad yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cyngor?

8.1 Mae'r asesiad anghenion poblogaeth yn cyfrannu at gylchoedd cynllunio strategol. Gan hynny, bydd hyn yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol yr holl gynghorau sy'n ymwneud ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth.

8.2 Mae gorgyffwrdd rhwng yr asesiad anghenion poblogaeth a'r Asesiad Llesiant sydd wedi cael ei baratoi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a rhennir gwybodaeth lle'n berthnasol.

## 9 Argymhelliad

9.1 Fod y pwyllgor yn cynnig ei sylwadau ar yr asesiad anghenion poblogaeth drafft fel rhan o'r ymgynhgoriad.